



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Adolygiad Cyflym o Gartrefi Gofal

Cynllun Gweithredu Cartref Gofal Gogledd Cymru

(Medi 2020 - Ebrill 2021)

Cyflwyniad

Mae cartrefi nyrsio a gofal preswyl yn darparu gofal ar gyfer y rhai mwyaf bregus a diamddiffyn yn ein cymunedau, ac yn ystod pandemig COVID 19 maent wedi wynebu pwysau a heriau anghyffredin wrth geisio cadw preswylwyr a staff yn ddiogel. Mae'r sector cartref gofal yng Ngogledd Cymru yn amrywiol gyda 345 o gartrefi wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gan gynnwys y sector annibynnol/ preifat, elusenol/ dielw, ac awdurdodau lleol. Gyda'i gilydd maent yn darparu 6978 o lefydd (neu wlaŵ) i breswylwyr, sylfaen wely sydd bron deirgwaith yn fwy nag ysbytai o fewn y rhanbarth.

Ar 1 Gorffennaf, ysgrifennodd Albert Heaney, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, i'r Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn eu hysbysu o'r adolygiad cyflym a gomisiynwyd yn lleol ar gartrefi gofal dan arweiniad yr Athro John Bolton. Cafodd ymatebion cychwynnol eu paratoi gan yr Athro John Bolton/ Llywodraeth Cymru yn gosod ymyriadau allweddol a chamau gweithredu a gyflawnwyd gan y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn ystod y cyfnod. Mae uwch swyddogion wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau a gweithdy rhanbarthol gyda'r Athro John Bolton.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi Cynllun Gweithredu Cartref Gofal Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ystyried y Cynllun Gweithredu i'w gymeradwyo cyn gynted â phosib.

Trosolwg

Fel y partneriaid strategol, mae'r chwe Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i sicrhau darpariaeth y system iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn addas ar gyfer y boblogaeth y mae'n ei wasanaethu. Mae hyn yn cynnwys gofyniad bod darpariaeth cartrefi gofal sydd yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd dda yn ystod amseroedd heriol, megis yr hyn a brofwyd yn ystod gwanwyn 2020.

I gyflawni'r rhain, mae angen gwneud y newidiadau hyn ac mae'n rhaid rhoi ffyrdd newydd o weithio mewn lle. Mae'r chwe mis diwethaf, wrth ddelio â phandemig

covid19 wedi amlygu er bod nifer o bethau i'w canmol, mae pethau sydd angen eu gwella.

Bydd modd cyflawni rhai o'r newidiadau yn y tymor byr, tra bydd hi'n cymryd mwy o amser i gyflawni eraill.

Cyd-destun a materion allweddol

Creu partneriaethau cynhyrchiol

Rydym wedi ymrwymo fel rhanbarth i'r uchelgais a amlinellir fel "Cymru Iachach", cael gwasanaethau lleol o ansawdd i'n poblogaeth lle bynnag bo'n bosibl. Dylai'r system iechyd a gofal cymdeithasol weithio mewn ffordd integredig gyda phartneriaid ar y cydweithio i gyd ddylunio a darparu gwasanaethau.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud i adeiladu partneriaethau effeithiol gyda'r sector cartref gofal. Mewn adolygiadau rhanbarthol blaenorol (e.e. 5 diwrnod mewn ystafell), adnabuwyd bod hwn yn broblem ac er bod ystod o newidiadau wedi cael eu gwneud, mae pandemig covid19 wedi amlygu bod dal angen gwneud gwaith i wella natur ac aeddfedrwydd perthynas gyda darparwyr cartref gofal yng Ngogledd Cymru.

Mae adborth buan gan yr adolygiad cyflym cartref gofal gan yr Athro John Bolton wedi amlygu nad yw cyrff statudol yn comisiynu cartrefi gofal yn effeithiol, yn hytrach maent yn prynu a chontractio gofal o'r farchnad bresennol.

Gan adeiladu ar y gwaith da sydd wedi datblygu gyda chartrefi gofal yn ystod y pandemig, rydym angen sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni yn y dyfodol mewn partneriaeth gyda'r sector sydd yn llawn gwybodaeth a phrofiadol i ddarparu gofal i rai o bobl hynaf a mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.

Drwy wneud hyn, byddwn yn sefydlu gwahanol berthynas gyda'r darparwyr - gan symud ymlaen o berthynas sy'n cael ei yrru gan fonitro a gwirio, i un y gallwn gyd-ddylunio a datblygu gwasanaethau. Bydd hyn angen ei reoli'n sensitif ac yn broffesiynol ochr yn ochr â rolau cefnogol, sydd yn gorfod parhau er mwyn gyrru ansawdd gofal a chymryd camau gweithredu priodol, a chymesur lle mae diffygion.

Mae gennym drefniadau rheoli rhanbarthol mewn lle, gyda rhai grwpiau a phwyllgorau wedi bod mewn lle ers nifer o flynyddoedd. Er ein bod wedi bod yn llwyddiannus wrth symud rhannau allweddol o waith ymlaen, rydym yn credu ei bod yn amserol i adolygu ac adfywio'r trefniadau hyn.

Ymagwedd Ranbarthol

Ar ddechrau'r pandemig, cafodd ystod o gynlluniau amlasiantaeth a threfniadau adrodd eu rhoi mewn lle fel rhan o'r ymateb cyffredinol i'r argyfwng. Mae'r rhain wedi bod yn effeithiol i ddarparu cydlynid tactegol o lefel uchel ac ymatebion gweithredol. Sefydlwyd grŵp cynllunio rhag argyfwng iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r strwythur gorchymyn rhanbarthol ochr yn ochr â Chell Gartref Gofal a arweiniwyd gan y Bwrdd Iechyd, gyda mewnbwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Fforwm Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Hefyd

rhoddwyd trefniadau ymateb a darpariaeth weithredol mewn lle ar lefel awdurdod lleol a thîm ardal i gefnogi'r sector.

Yn ystod y pandemig, roeddem yn gweithio gyda phartneriaid i newid y diwylliant a lleihau'r baich ar gartrefi gofal ar gyfer cysylltiadau amryfal. Mae hwn wedi'i ddatblygu i gasgliad data newydd a system rhybudd buan sy'n gwneud galwadau "un cyswllt y diwrnod" i gartrefi gofal. Mae hyn yn sicrhau bod set ddata sylfaenol yn cael ei gasglu a'i rannu rhwng partneriaid statudol fel bod cefnogaeth briodol yn cael ei gynnig mewn ffordd amserol. Mae'r system hwn dal mewn lle er ei fod yn digwydd dwywaith yr wythnos. Mae'r wybodaeth yn hysbysu adnodd cefnogaeth ac uwchgyfeirio cartref gofal Gogledd Cymru. Mae'r adrodd deinamig hwn yn darparu dangosyddion cynnar o bwysau a phroblemau ac yn caniatáu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth.

Yn ystod y pandemig, sefydlwyd tri amlasiantaeth *Home First Bureau* i gefnogi trosglwyddo priodol ac amserol y cleifion o ysbytai aciwt a chymunedol yn ôl i'w cartrefi, cartrefi gofal presennol neu leoliad newydd. Maent yn rhan gyfannol o'r gofynion Gwasanaeth rhyddhau o'r Ysbyty ar ôl COVID-19 (Cymru) ac wedi bod yn hanfodol ar gyfer gweithrediad diogel y gofal camu i fyny a chamu i lawr diwygiedig, gan sicrhau bod profion prawf negyddol ar gael i gleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ôl i'w lleoliad gofal, neu symud rhwng cartrefi gofal. Rydym wedi ymrwmo i gynnwys y trefniadau hyn o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau trosglwyddiad diogel a rhyddhau cleifion.

Bydd asesiadau anghenion gofal cymdeithasol ac asesiadau cymhwyster CHC GIG yn cael eu cyflawni yn y lleoliad cymunedol a ni mewn ysbyty aciwt. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai dyma yw eu disgwyliad a dylai'r GIG barhau i ddefnyddio'r llwybr asesu a rhyddhau i adfer gan weithio'n agos gyda maes gofal cymdeithasol i oedolion, y sector gofal ehangach a'r sector gwirfoddol. Er bydd y mwyafrif o bobl yn cael eu rhyddhau yn ôl i'w cartref eu hunain, bydd cyfran fechan angen ac yn cael budd o ofal cartref nyrsio neu breswyl tymor hir. Mae'r gefnogaeth ariannol a llif arian wedi'i newid yn ystod y pandemig ac mae'r darpariaethau a wneir yn amodol i adolygiad parhaus gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein ffyrdd newydd o weithio a'n strwythur rheoli angen adlewyrchu yn well ein huchelgais i sicrhau bod gwaith yn y dyfodol yn cael ei gyflawni yn ysbryd gwirioneddol partneriaeth wrth ddarparu'r gofal hyn. Bydd cwrpas, pwrpas ac aelodaeth y bwrdd comisiynu rhanbarthol yn cael ei adolygu a'i adfywio i ddarparu trosolwg strategol ac arweinyddiaeth sy'n ofynnol.

Cynaliadwyedd: Gweithlu a Chyllid

Un o'r delweddau ysbrydoledig yn ystod y pandemig yw'r gwaith arwrol y staff gofalu, nad oedd wedi'i gydnabod gan y cyfryngau na'r boblogaeth ar y cyfan cyn y pandemig. Daeth eu cyfraniad personol ac effaith yn amlwg yn fuan iawn. Fel rhanbarth, rydym wedi ymrwmo i sicrhau nad yw'r newid proffil hwn yn mynd ar goll a'n bod yn sicrhau bod anghenion staff unigol yn cael eu hadnabod a chefnogi.

Mae ychydig o'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei gyflawni yma yn berthnasol i sicrhau bod y lefel orau o gymorth yn cael ei ddarparu i gartrefi gofal, boed yn fynediad at

staff clinigol gofal sylfaenol, swyddogion iechyd yr amgylchedd neu arbenigwyr mewn iechyd y cyhoedd ac atal a rheoli heintiau.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i sicrhau pan fydd yr angen yn codi, bod staff ar gael i gartrefi gofal o'r gronfa ranbarthol. Rydym eisiau sicrhau bod darparwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth pan mae heriau sylweddol yn codi, a'u bod yn gwybod y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gilydd.

Agwedd allweddol unrhyw system yw sicrhau bod sgan staff y sgiliau cywir er mwyn gallu cyflawni eu gwaith yn effeithiol. Heb heriau'r pandemig diweddar, mae'r mwyafrif o gartrefi gofal yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd dda. Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yw gydag ychydig o hyfforddiant ychwanegol, gall cartref gofal unigol fod yn fwy parod i ymdopi yn well gyda heriau penodol ac unigryw maent yn eu hwynebu. Yn arbennig, mae hyn yn berthnasol i faterion megis atal haint a rheoli a monitro clinigol sylfaenol.

Ffactor allweddol i ganolbwyntio yw os ydym am gyflawni sector gofal cryf a chynaliadwy er mwyn symud ymlaen, yna mae'n rhaid iddo fod yn hyfyw yn ariannol. Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gyllid tymor byr gan y gronfa galedi Llywodraeth Cymru yn cael ei reoli'n effeithiol, ac ar gyfer cynaliadwyedd a chadernid hir dymor y sector, bydd arnom angen ystyried sut y gallwn symud i alinio ein methodoleg ffioedd yn unol â'r egwyddorion a nodir yn "Let's Agree to Agree" 2018.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn olrhain yr argymhellion allweddol a nodwyd yng nghanfyddiadau cynnar yr Athro John Bolton a rannodd gyda'r rhanbarth, ac yn darparu ymateb lleol i'r materion a godwyd. Mae'r cynllun yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Medi 2020 ac Ebrill 2021, a bydd yn cael ei adolygu cyn mis Mawrth 2021.

Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal Gogledd Cymru – Medi 2020

Thema: trefniadau strategol o fewn Rhanbarth Gogledd Cymru

Camau gweithredu	Allbynnau	Yn Arwain	Amserlen	Mesur Perfformiad
Adolygu natur ein cysylltiad â darparwyr Cartref Gofal, sicrhau bod gwaith yn y dyfodol yn cael ei gyflawni yn ysbryd partneriaeth wirioneddol gyda'r rheiny sy'n darparu gofal i'r oedolion mwyaf diamddiffyn yn y system iechyd a gofal.	Grŵp/ Byrddau (e.e. Bwrdd Comisiynu) wedi eu hadolygu a'u hadfywio	RCB	Cymedrol	Adborth gan ddarparwyr cartref gofal Adborth gan gomisiynwyr Awdurdod Lleol Adborth gan Dimau Ardal BCU Adborth gan fforymau darparwyr
Ar lefel lleol mae angen grŵp gweithredol sydd yn gwybod beth yw eu rolau a chyfrifoldebau a all gydlynu cefnogaeth sydd ei angen gan wahanol gartrefi gofal.	Mapio trefniadau gweithio mewn partneriaeth leol ym mhob ALI / Tîm Ardal a rhannu arferion da. Adolygu ac adfywio'r grwpiau sy'n adrodd i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol	AISB	Byr	Cymeradwyaeth o'r trefniadau llywodraethu diwygiedig gan NWRPB

Thema: cymorth gweithredol ar gyfer cartrefi gofal o fewn y rhanbarth

Camau gweithredu	Allbwn/ Canlyniadau	Yn Arwain	Amserlen	Mesur Perfformiad
Byddwn yn cefnogi pob Cartref Gofal i gael cynllun parhad busnes.	Rhannu arfer orau a darparu mynediad at gyngor arbenigwr drwy'r Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Gogledd Cymru, CIW a thebyg.	NWREPS & CFW	Tymor byr – Tymor canolig	Pob gofal cartref o fewn y rhanbarth wedi adolygu eu cynllun parhad busnes a bydd rheolwyr pob cartref gofal yn hyderus o'r camau gweithredu sydd angen eu cyflawni pan fo angen.
Byddwn yn cynorthwyo Cartrefi Gofal o fewn y Rhanbarth gan sicrhau bod cynllun gweithredu "rheoli haint" mewn lle.	Gwell ddealltwriaeth o fynediad at gyngor rheoli haint sydd ar gael drwy'r cyrff statudol.	RCB ac Iechyd Cyhoeddus Cymru	Tymor Canolig	Bydd gan bob cartref y sgiliau sy'n angenrheidiol i allu gweithredu cynllun rheoli haint pan fydd angen ac wedi cael yr

Camau gweithredu	Allbwn/ Canlyniadau	Yn Arwain	Amserle n :	Mesur Perfformiad
	<p>Mapio'r gefnogaeth a hyfforddiant sydd ar gael i gartrefi gofal ar reoli haint.</p> <p>Ystyried darparu hyfforddiant yn unol ag arfer orau.</p>			hyfforddiant perthnasol i'w lleoliad a lefel y risg.
Byddwn yn sicrhau bod cynllun staffio wrth gefn mewn lle ar gyfer y rhanbarth.	<p>Cynllun staffio wrth gefn mewn lle yn rhanbarthol.</p> <p>Cwblhau trefniadau ar gyfer mynediad at staff banc HCA Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr os yw hyn yn parhau'n briodol yn dilyn llythyr diweddar gan Lywodraeth Cymru.</p>	Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol GC	Byr	Bydd pob cartref gofal yn eglur o ran sut y gallent gael mynediad at staff mewn argyfwng.
Byddwn yn ystyried sut y byddwn yn cynghori Cartrefi Gofal ar y ffordd orau o drefnu staff yn ystod pandemig, gan ddileu'r staff sy'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad a sicrhau bod yr adnodd Asesiad Risg BAME yn hysbys i'r cartrefi gofal ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol.	<p>Atgyfnerthu cyngor cenedlaethol ar leihau neu ddileu staff sy'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad.</p> <p>Cymryd y cam gweithredu priodol os nad oes cydymffurfiaeth.</p>	Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol GC	Byr	Bydd pob cartref gofal yn hysbys ac yn cael eu cefnogi ar y defnydd diogel o staff mewn argyfwng – staff mewnol/ allanol ac asiantaeth.
Byddwn yn adolygu ac ystyried sut y byddwn yn parhau i gefnogi lles ein holl staff sydd wedi gweithio yn ystod y pandemig.	<p>Bydd gennym gynllun sydd yn adlewyrchu'r trefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol cyfredol sydd mewn lle.</p> <p>Ystyried gyda Darparwyr ar effeithiolrwydd trefniadau cyfredol ac ystyried cymorth</p>	Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol GC	Tymor Canolig	Cynllun lles mewn lle yn rhanbarthol ar gyfer staff gofal gydag ymyriadau allweddol mewn lle i staff cymorth o fewn cartrefi gofal.

Camau gweithredu	Allbwn/ Canlyniadau	Yn Arwain	Amserle n :	Mesur Perfformiad
	ychwanegol fel bo'n briodol.			
Byddwn yn ystyried sut i gynorthwyo pob cartref gofal i gael gweithgareddau ystyriol mewn lle i breswylwyr yn ystod unrhyw bandemig, gyda ffocws ar weithgareddau sydd yn briodol i'r rheiny sydd yn hunan ynysu neu'r rhai hynny sydd â dementia, gan gynnwys ystyried lles emosiynol.	<p>Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gan Gartrefi Gofal fynediad at syniadau ac adnoddau i gefnogi preswylwyr yn ystod achosion pellach.</p> <p>Dysgu ac adeiladu ar brosiect blwch Dementia yn Wrecsam a chyflenwad o IPads, wedi'i ariannu gan ICF, i gyfathrebu gyda pherthnasau ac adloniant e.e. ffrydio cyngherddau Katherine Jenkins</p>	Fforwm Gofal Cymru/ Cymdeithas Alzheimer/ Age Cymru	Tymor Canolig	Adborth gan gartrefi gofal a phreswylwyr
Byddwn yn ystyried sut y byddwn yn cynorthwyo Meddygon Teulu Lleol i sefydlu trefniadau gwell ar gyfer pob Cartref Gofal yn eu hardal. Lle nad yw hyn bosibl, bydd ymarferwyr sydd â chleifion mewn Gartrefi Gofal penodol angen bod yn eglur o ran sut y bydd y preswylwyr yn cael eu cefnogi.	<p>Monitro gweithredu ac effaith Gwasanaeth Uwch Uniongyrchol Cenedlaethol i gartrefi gofal a darparu adborth ar ei effeithiolrwydd.</p> <p>Adeiladu ar waith a gyflawnir i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddarparu gofal a chymorth e.e. Ymgynghoriadau, Cyngor ac Adolygiadau o Bell.</p>	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cynradd a Chymunedo I Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Tymor Canolig	Cydymffurfiaeth â'r DES gydag adrodd sicrwydd yn unol â RCB.
Byddwn yn adolygu ac ystyried sut y gallwn gynorthwyo cartrefi gofal i sicrhau bod ganddynt flaenoriaeth gyfartal o'r cyflenwad Cyfarpar Diogelu Personol sydd ar gael os bydd pandemig arall.	Cynnal systemau dosbarthu a chyflenwad cyfredol i ymateb i achosion pellach.	Arweinwyr Caffael ym mhob Awdurdod Lleol/ HB a LIC/ NWREPS	Tymor Canolig	Adolygu/ archwilio sefyllfa mewn 6/12 mis.

Camau gweithredu	Allbwn/ Canlyniadau	Yn Arwain	Amserle n :	Mesur Perfformiad
Byddwn yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod prosesau mewn lle i gefnogi'r trefniadau profi ac olrhain mewn cartrefi gofal.	Parhau i fonitro effeithiolrwydd galwadau Tîm Aml Ddisgyblaeth ddyddiol rhwng y Ganolfan Cartrefi Gofal a'r Tîm Profi ac Olrhain.	Arweinydd Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/ Arweinwyr Profi ac Olrhain yn yr Awdurdoda u Lleol/ Iechyd Cyhoeddus Cymru	Tymor Canolig	Adolygu ac adborth gan reolwyr cartrefi gofal ac arweinwyr profi Awdurdodau Lleol.
Byddwn yn ystyried sut bydd ein hasesiadau risg lleol yn cael eu cyflawni a sut y bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda chartrefi gofal, gan eu galluogi i gymryd camau gweithredu i leihau eu risgiau.	Rhannu'r fframwaith uwchgyfeirio a chymorth ar gyfer cartrefi gofal a cheisio adborth gan y sector ar ei effeithiolrwydd.	Arweinwyr comisiynu o fewn yr Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Grwpiau gweithredol/ AISB.	Byr	Adborth gan reolwyr cartref gofal yn nodi eu bod yn deall ac yn gallu dysgu o'r asesiad risg a gyflawnir ar eu cartref.
Byddwn yn ystyried sut ydym yn trefnu gwlaŷ tymor byr (gofal canolraddol) i fod ar gael i helpu adferiad cleifion sydd wedi bod yn yr ysbyty ac mae gofyn iddynt hunanynysu i sicrhau nad ydynt yn lledaenu'r firws o fewn y gymuned/ cartrefi gofal.	Cynnal trafodaethau a chynllunio parhaus ar lefel AISB o'r nifer o wlaŷ gofal canolraddol a nifer ymchwydd sydd ar gael ar draws y rhanbarth a datblygu protocolau i'w defnyddio (os nad ydynt mewn lle eisoes) Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol.	AISB	Byr	Nifer digonol o wlaŷ sydd ar gael Ffigurau oedi wrth drosglwyddo gofal

Camau gweithredu	Allbwn/ Canlyniadau	Yn Arwain	Amserlen :	Mesur Perfformiad
	Diweddarau cynlluniau yn unol â dysgu o'r Grŵp Prosiect Gofal Canolraddol Cenedlaethol.			
Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pob staff perthnasol o fewn ysbytai aciwt yn deall ac yn gallu defnyddio'r trefniadau lleol sydd mewn lle i gefnogi rhyddhau cleifion yn ddiogel i gartrefi gofal.	Cynnal cyfathrebu rheolaidd a briffio ar draws 3 safle aciwt gyda newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol. Adnabod problemau yn fuan a datrysiaid effeithiol.	Rheolwyr Safle Acíwt ac AISB.	Byr	Adborth gan Staff Cartref Gofal a NAWASH. Adrodd Datis yn dilyn rhyddhau amhriodol.
Byddwn yn ystyried sut ydym yn sicrhau bod cyfathrebu gyda chartrefi gofal yn cael ei reoli a'i weithredu'n effeithiol (rhannu gwybodaeth i sicrhau bod y cartrefi yn cael y cymorth orau posib wrth gyfyngu ar bwysau ar y cartrefi gofal).	Cydgrynhoi'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu parhaus gyda chartrefi gofal.	AISB/ Arweinwyr Comisiynu ALI/ Fforwm Gofal Cymru Rheolwr R, I & I	Byr	Adborth gan reolwyr cartref gofal a rheolwyr comisiynu
Byddwn yn ystyried sut y gallwn benderfynu ar y ffordd orau i symleiddio a chydlynu lledaenu canllawiau lleol a chenedlaethol er mwyn ei rannu gyda darparwyr cartref gofal mewn modd amserol ac effeithiol.	Cynnal y trefniadau rhannu gwybodaeth a gytunwyd arnynt sydd mewn lle rhwng ALI a GIG. Adolygu beth wnaeth weithio'n dda a beth allai fod yn well.			
Byddwn yn adolygu ac ystyried sut y byddwn yn parhau i gefnogi ein sector gofal yn ariannol yn awr ac yn y dyfodol.	Cyflawni ac adolygu sut mae cronfa galedi LIC wedi gweithio. Cyflawni adolygiad o'r cyllid craidd ar gyfer lleoliadau CHC. Ystyried yr egwyddorion "let's	Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol / Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol/ Llywodraeth Cymru /	Tymor byr – Tymor canolig	Archwiliad ariannol/ safbwynt Swyddfa Archwilio Cymru/ Fforwm Gofal Cymru/ Darparwyr

Camau gweithredu	Allbwn/ Canlyniadau	Yn Arwain	Amserle n :	Mesur Perfformiad
	agree to agree” a sicrhau/ ailsefydlu ffioedd cynaliadwy ymlaen gyda chymorth LIC.	Timau Ariannol.		
Byddwn yn ystyried sut ydym yn cadw'r gwersi a ddysgwyd o'r camau gweithredu a gymrwyd yn ystod y pandemig cyfredol, yn arbennig lle'r oedd rhaid iddyn nhw gyflawni cam gweithredu mewn argyfwng.	Cael cadarnhad fel rhanbarth o ran beth oedd y gwersi a ddysgwyd o'r camau gweithredi a gymerwyd. Gallai hyn gael ei gyflawni gyda chymorth y Tîm Ymchwil, Arloesi a Gwelliant. Rhannu'r dysgu o'r Camau Gweithredu'r Cartrefi Gofal yn ystod y pandemig cyfredol.	Rheolwr R, I & I Arweinydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Tymor Canolig	
Gweithio gyda chartrefi gofal i ddatblygu a goruchwyllo darparu rhaglen o brechiad rhag y fflw i breswylwyr a staff yn ogystal â chynllunio ar gyfer darparu brechiad rhag covid pan fydd ar gael.	Bydd pob cartrefi gofal yn gwybod pryd byddant yn cael y brechiad rhag y fflw a hefyd pan fydd y brechiad rhag covid ar gael.	Arweinydd Fflw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Arweinydd Brechiad Rhag Covid (Ffion)	Byr	Mae pob preswlydd a staff cartref gofal yn cael y brechiad mewn modd amserol ac effeithiol.

Amserlen weithredu

Tymor Byr – Medi 2020 – Ionawr 2021

Tymor Canolig – Chwefror – Awst 2021